1934

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
ELLIS WYNNE A'R "BARDD CWSG."
Y GYMANFA GANU.
COLEG CAERFYRDDIN.
NID YW YR ANGEN AM GENHADAETH EGLWYS DDUW WEDI PEIDIO.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Cyf. xxxiv. | Awst, 1934 | Rhif 8

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXIV. AWST, 1934. RHIF 8

"DOS I'TH YSTAFELL—."

Bwriadau lawer sydd ynghalon dyn ; ond cyngor yr Arglwydd a saif.—Diarhebion xix, 21.

* * *

Nid oes un ffordd yn rhy hir i'r dyn a elo yn ei flaen heb frys ac i bwrpas.—BRUYERE.

* * *

Mewn unigedd y meithrinir talentau oreu, ond ar fôr tymhestlog bywyd y megir cymeriad.—GOETHE.

* * *

Mae yr hwn a orchfygo a gair yn gorchfygu yn deilwng.—ERIC MACKAY.

* * *

Ar wyneb yr holl ddaear nid oes undyn yn unig, ond yr hwn a wrthoda fyw dros eraill.—ROGERS.

* * *

Nid methu yw'r trosedd, eithr anelu yn isel.—LOWELL.

* * *

Gwae'r gŵr a brynodd wenau'r byd.—HAFIZ.

* * *

Nid yw'r dyn ystyfnig yn dal syniadau ; mae'r syniadau yn ei ddal ef.—YR ESGOB BUTLER.

* * *

Crefydd yw'r arfogaeth oreu yn y byd, ond y clogyn gwaelaf.—NEWTON.

* * *

TYDI yr hwn roddaist i ni fywyd, dyro i ni ddoethineb i ddefnyddio bywyd i'r amcanion goreu. Boed i bob dydd newydd ein cael gam yn nes tuag at berffeithrwydd cymeriad. Na foed i un dydd fyned heibio heb i ni orchfygu rhyw demtasiwn ac enill un buddugoliaeth dros y drwg. Par fod pob dydd yn ein cael yn wrol mewn rhyw ymgyrch dros y da. Dysg i ni weled ein dyledswydd a'n cenhadaeth yng ngoruchwylion cyffredin ein bywydau beunyddiol, fel y cerddom bob awr fel yn dy bresenoldeb Di a byw ymhob man fel rhai yn gweled yr anweledig.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

PAN ddaeth yr Hibbert Journal am fis Gorffennaf i'm llaw teflais fy ngolwg fel arfer dros daflen y cynnwys ar yr amlen, a chefais fy synnu yn fawr gan deitl un o'r llithiau,—

"Amhoblogrwydd Addysg".

Gwyddwn fod llawer o feirniadu ar gyfundrefnau addysg, ond ni ddaeth i'm meddwl erioed y gallai addysg fod yn "amhoblogaidd". Gwyddwn am ambell un, yma a thraw, heb erioed gael manteision addysg, ond wedi "gwneyd" gystal ac mor ddoeth yn ei dyb ei hun, nes iddo feddwl mai cenhadaeth ei fywyd oedd dibrisio addysg. Tybiwn fodd bynnag fod dynion felly, o drugaredd, yn brin, ac fod y mwyafrif mawr a chanddynt wir barch tuag at addysg, ac yn dyheu am y dydd pan y deuai manteision uchaf addysg o'r radd oreu yn hawlfraint i bob plentyn. Yr oedd y ffaith y medrai dyn fel John Murray, Ll.D., Prifathro Coleg Prifysgol y Dehau Orllewin, ysgrifennu yn yr Hibbert Journal ar "Amhoblogrwydd Addysg" yn awgrymu ei bod yn bosibl mai yn y lleiafrif wedi'r cyfan y ceir y bobl a chanddynt wir barch at addysg.

O ddarllen y llith darganfyddais fod y Prifathro yn dal nad oes yr un amheuaeth fod addysg yn amhoblogaidd ymhlith tyrfa fawr o "Saeson". Ni wn a fwriadai yr ysgrifennydd i'r term Saeson gynnwys holl drigolion Prydain Fawr. Purion yw cofio rhwng cromfachau i addysg fod yn fwy "poblogaidd" yng Nghymru a Scotland dros genhedlaethau lawer nac oedd yn Lloegr.

Gwna Dr. Murray ymgais i ddarganfod beth sydd yn peri i addysg fod yn amhoblogaidd : dywed fod anesmwythder y cyfnod ydym yn byw ynddo yn gyfrifol i raddau helaeth ; ac mae hyn yn sicr o fod yn wir. Ond yn ei dyb ef, calon y drwg yw atitiwd y bobl sydd yn meddwl nad oes unpeth yn werth gwario arian arno oni fydd iddo gynyrchu yn uniongyrchol

Elw Materol neu Bleser.

Nid yw'r Prifathro yn enwi y pethau fedrant gynyrchu elw materol a phleser, a diddorol fyddai cael gwybod ganddo ai elw materol neu bleser ddaw yn eiddo i ni o gael o honom y Llynges Awyr gostfawr mae'r Llywodraeth am adeiladu, a hwythau yn dal na ellir fforddio cadw plant yn yr ysgol hyd eu bod yn bymtheg oed.

Dosbarth arall sydd yn cashau addysg yw'r "bobl sydd mewn brys". Mae rhieni tlawd yn awyddus i'w plant ddyfod allan o'r

ysgol fel y gallont ddechreu ennill. Ac mae eraill heblaw'r rhieni yn canfod na dderbynia y plentyn yn yr ysgol unpeth a fydd o gymorth iddo pan y delo i ddilyn ei alwedigaeth ddewisedig. Dywed y beirniad na dderbynia y plentyn chwaith unpeth arall i wneyd i fynu am y diffyg hwn. Dadleuir felly mai ofer yw estyn tymor yr ysgolia. Ateb y Prifathro i'r gŵyn hon yw mai afresymol yw hawlio'r tymor ysgolia gael ei dorri yn fyr a disgwyl ar yr un pryd y bendithion a wnaent ddeilliaw o fod y tymor yn cael ei estyn. Heblaw hynny, nid ar unwaith y medir cynhaeaf addysg. Os oes gan yr addysg a gyfrennir yn ein hysgolion unrhyw effaith o gwbl ar ddyn fel aelod o gymdeithas nid yw yr effeithiau hyn i'w canfod hyd nes bydd dyn yn ddeugain oed a throsodd.

Sonir am un dosbarth arall o feirniaid,—y bobl ddywedant fod gormod o bwyslais yn cael ei roddi ar swm y wybodaeth gyfrennir—a rhy fach ar ddylanwad moesol yr ysgol a phersonoliaeth yr athrawon. Cesglir fod llawer o bobl yn credu mai dysgyblaeth ddylai fod amcan pennaf addysg, ond tuedd yr oes hon yw dibrisio dysgyblaeth a cheisio addysgu drwy ennyn diddordeb y plant. Effaith hyn, meddai'r beirniad, yw gwneyd pethau yn rhy esmwyth a gwneyd y plant yn hunanol.

Ar ôl ymgodymu a'r beirniaid fel hyn dywed y Prifathro fod angen am feirniadaeth barhaus. Nid oes gan unrhyw gyfundrefn arbennig o addysg hawl i'r parch a'r gwrogaeth ddylid dalu i addysg fel delfryd. Mae cyfundrefn addysg y dyddiau hyn wedi tyfu i fod yn beiriant anferth a nerthol, a pherygl i'r peiriant fyned yn rhy fawr a rhy afrosgo i neb ei lywodraethu. I ymladd y perygl hwn rhaid wrth feirniadaeth oleuedig.

Ar y cyfan barna ein hysgrifennydd fod gwell addysg heddyw nag oedd genhedlaeth yn ôl. Y mae ein pobl ieuainc hefyd, meddai ef, rhyw ychydig yn well ac ychydig yn fwy aflywodraethus. Efallai mai addysg sydd i gyfrif am y ddau gyfnewidiad. Felly, mae addysg yn amhoblogaidd !

Delir â phroblem addysg o safbwynt gwahanol yn yr un rhifyn o'r Hibbert gan ysgrifennydd o Gaergrawnt. Sôn mae ef am

"Y Brifysgol yn yr Oes Newydd."

Dywed yr ysgrifennydd i'r brifysgol erbyn hyn ennill iddi ei hun yr hawl o gael ei chyfrif yn sefydliad gwir genedlaethol ; drwy ei gwaith mewn gwahanol gyfeiriadau mae mewn perthynas fyw ag anghenion yr oes. Hawlir fod gradd prifysgol heddyw, nid yn unig yn arwydd fod dyn yn feddiannol ar ryw swm neillduol o wybodaeth, ond fod y brifysgol wedi cyfoethogi ei dalentau, wedi dyfnhau ei ddeall, ac wedi lledaenu ei weledigaeth mewn modd na ellid wneyd drwy unrhyw gyfrwng arall.

Os ydyw dylanwad y Brifysgol fel sefydliad yr hyn a hawlir ei bod, mae y cwestiwn "Beth ddylai natur a delfryd Prifysgol fod" yn un gwir bwysig,—i bawb.

Dywed ysgrifennydd y llith dan sylw fod "natur prifysgol yn dibynnu ar natur gwybodaeth" ; seilid cyfundrefn addysg golegawl y Canol Oesoedd ar y syniad fod i gyfanswm gwybodaeth unoliaeth hanfodol. Yr oedd i bob cangen o wybodaeth ei lle priodol ei hun o fewn y corff cyfan, a'r lle blaenaf i athroniaeth am mai testun ei hefrydiaeth hi oedd egwyddorion hanfodol pethau. Llaw-forwynion i athroniaeth oedd y gwyddorau i gyd, a hithau athroniaeth yn llaw-forwyn i Ddiwinyddiaeth—Brenhines y Gwyddorau. Ystyrid mai testun efrydiaeth Diwinyddiaeth oedd Gwirioneddau a ddadguddiwyd yn uniongyrchol gan Dduw ei hun. Y peth pwysig ynglŷn â hyn i gyd yw na chollid golwg am ennyd ar yr unoliaeth. Mae yn wir nad oedd cyfangorff y wybodaeth oedd yn eiddo i feddylwyr y Canol Oesoedd i'w gymharu a chyfangorff gwybodaeth heddyw ac am hyn yr oedd yn bosibl i gawr o ddyn fel Thomas Aquinas i fod yn hyddysg ym mhob cangen o wybodaeth.

Ond gyda dadblygiad y gwyddorau arbennig a thyfiant arswydus cyfanswm gwybodaeth yn ystod y ganrif ddiweddaf, y canlyniad fu i ddynion golli golwg ar yr unoliaeth. Ystyrrid fod pob gwyddor mor bwysig a'r llall ; amcan pob efrydydd oedd bod yn hyddysg yn ei ddewis wyddor ei hun ac ni wneid fawr ymdrech i olrhain y berthynas rhwng y gwahanol ganghenau.

Dywed ei hysgrifennydd mai angen hanfodol yr oes hon yw ail ganfod ac ail sefydlu unoliaeth y gwyddorau. Un o egwyddorion hanfodol y meddwl Cristionogol yw fod pob peth sydd yn rhan o drefn rhesymol a dealladwy.

Gwel ein hysgrifennydd arwyddion fod ein cenhedlaeth ni wedi canfod yr angen am yr unoliaeth yma. Canfyddir fod angen am i ni gael syniad clir o werth cymharol gwahanol fathau o wybodaeth. Heb i ni feddu syniad clir am werth cymharol pethau, nid oes obaith am drefn ar fywyd. Dinystr buan ddaw i'n Gwareiddiad oni fedrir ei ail adeiladu ar seiliau y gwrtaith ysbrydol a gollwyd.

I gyfeiriad y prifysgolion, meddai'r ysgrifennydd o Gaergrawnt, y mae yn rhaid edrych am y cymhelliad i ail-adeiladu gwareiddiad ar sail cyfundrefn o wybodaeth ag iddi unoliaeth ysbrydol. Dylai addysg prifysgol, yng ngeiriau Newman, "wella awyrgylch feddyliol cymdeithas, gwrteithio meddwl y cyhoedd, rhoddi egwyddorion teilwng i bobl fod yn frwdfrydig yn eu cylch, rhoddi amcanion teilwng i ddyheadau pobl, a rhoddi difrifoldeb i syniadau yr oes."

Sôn am ddelfryd prifysgol oedd Newman yn y geiriau uchod, ond oni cheir yn y geiriau hyn ddisgrifiad teilwng hefyd o'r hyn ddylid ddisgwyl oddiwrth gyfundrefn addysg wladol fel y cyfryw.

Hwyrach, wedi'r cyfan, mai sail wirioneddol amhoblogrwydd addysg yw fod rhyw syniad niwlog gan y mwyaf anwybodus hyd yn oed, fod holl drybini ac anesmwythder ac ansicrwydd yr oes i'w briodoli i'r ffaith fod addysg wedi methu yn y peth mwyaf pwysig, sef dysgu dynion i fyw gyda'i gilydd yn synhwyrol ac yn heddychlon.

Ofer yw disgwyl y gall unrhyw gyfundrefn addysg wneyd "dyn cyflawn" o blentyn cyn iddo gyrhaedd ei bedair ar ddeg oed, ond rhyw ddydd,—o bosibl drwy i'r prifysgolion gynyrchu arweinwyr teilwng i'r bobl, daw gwerinoedd y byd i feddiannu syniadau gwell am werth cymharol pethau. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd y gwawria'r dydd pan y cyfrifir addysg ddigonol i bawb yn fwy pwysig nag arfau rhyfel.

Yn y cyfamser nid gormod hwyrach yw disgwyl ar i bobl sydd yn dymuno yn dda i wareiddiad beidio ychwanegu at amhoblogrwydd addysg drwy feirniadaeth ragfarnllyd a disynwyr. Mae addysg yn ystyr oreu'r gair yn holl-bwysig ac yn anhebgorol.

Mae dyfodol gwareiddiad yn dibynnu i raddau helaeth ar i ni gydnabod hyn, a cheisio ennill cydweithrediad pobl o ewyllys dda i berffeithio ein cyfundrefnau.

Ellis Wynne a'r "Bardd Cwsg".

Nid oes, ond odid, nemor un o'm darllenwyr wedi darllain y Bardd Cwsg, nac wedi clywed sôn am Ellis Wynne o'r Lasynys. Y mae yn ei fedd ers dau can mlynedd, a'r genedl am ei gofio, a darllenwyr yr Ymofynnydd yn gofyn pwy oedd? Anodd mynd a chwi yn ôl. Rhoid Ellis Wynne yn ei fedd tua chyfnod codi capel cyntaf Llwynrhydowen, a Jenkin Jones yn pregethu Arminiaeth. Yn 1734 yr oedd Ellis Wynne yn Fardd *Cwsg*, wedi huno, a Jenkin Jones ar ddihun. Y mae'n ddiddorol ceisio rhoi dyn yn ei gyfnod, a cheir paragraff yn hanes Griffith Jones Llanddowror yn nodi cyfoeswyr Ellis Wynne: "Diddorol yw sylwi ar oedran rhai o brif ddynion y ddeunawfed ganrif yn 1731, pan gychwynwyd yr Ysgolion Cymraeg Cylchdeithiol. Yr oedd Syr John Phillips yn 69, Elis Wyn yn 59, Griffith Jones yn 48, Moses Williams o Lanwenog yn 45, Theophilus Evans yn 37, Lewis Morris o Fôn yn 31, John Wesley yn 28, Daniel Rowland yn 18. Howel Harris, Whitefield ac Edward Richard yn 17, Williams Pantycelyn yn 15, Goronwy Owen a Pheter Williams yn 9, a Ieuan Brydydd Hir, Thomas Charles ac Iolo Morgannwg heb eu geni."

Y mae yr Athro R. T. Jenkins wedi tynnu darlun o Gymru Ellis Wynne, a cheisiaf godi brawddeg neu ddwy er ei ddangos,—" Ffon bara y tadau oedd yr ' hen geirch blewog ' . . . â chryman hirgoes, hen ffasiwn y medid . . . aradr bren hen ffasiwn . . . llyfnu ag og driongl . . . cario a char llusg neu ' gar cefn ' . . . dibynnu ar ychen-dyrnu a ffust a nithio â gwyntyll o sachliain ar ffrâm bren neu ymddiried y gorchwyl i wynt y nefoedd . . . gweithiai'r llafurwr mewn rhai mannau yn Aberteifi am chwe cheiniog y dydd ar ei fwyd ei hun . . . Bara haidd a bara cheirch, llymru a chawl digon dilygad a thamaid prin o gig moch . . . Tŷ pridd a thô brwyn . . . tân o fawn neu o frigau . . . gwartheg a gwlân . . . porthmyn yn mynd i Loegr . . . "

Y mae yn anodd mynd yn ôl er gweld bwganau Ellis Wynne. Hawdd deall ei ofn o'r Babaeth a Iacobitiaid Ysgotland yn gwrthryfela yn 1715. Yn Ninas Immanuel ni cheid ond ychydig ' bennau coronog ' (a'r frenhines Ann wrth gwrs), ac yn Uffern yr oedd " y Pab a'r hen Lowis o Ffrainc, gyda Chromwel a Bradshaw a Phontius Peilat ". Hawdd deall ei fod yn deyrngarol i'r teulu brenhinol, ac ni cheir ergyd llymach na'i eiddo yn dweyd fod " Luciffer yn arswydo rhag Cromwell yn Uffern ".

Fe fuasai yn ddiddorol cymryd ergydion Ellis Wynne er gweld ei feddwl a'i fyd, ond ni thâl ar hyn o bryd.

Ganwyd Ellis Wynne mewn hen blasdy o'r enw Lasynys, rhyw filltir a hanner o Harlech, sir Feirionnydd. Yma y ganwyd ef ac yma y bu farw. Ni wyddom nemor o'i hanes. Aeth i Rydychen yn un ar hugain oed, ond ni raddiodd yno. Myn traddodiad mai cyfreithiwr oedd ar y cyntaf, ac wedyn offeiriad. Yn 1705 cafodd fywoliaeth Llandanwg ; a Llanfair yn 1711. Ys dywed y diweddar Syr John Morris-Jones amdano, " Diameu nad oedd fawr o hanes i'w draethu amdano. Bugeiliodd ar ei dreftadaeth ei hun, a threuliodd fywyd syml digyffro yn eu plith ; a gwyn ei fyd y gŵr (fel gwlad) sydd heb hanes." Dyna oedd Ellis Wynne—offeiriad a llenor.

Yn 1701 cyhoeddodd ei gyfieithad o waith Jeremy Taylor " Rheol Buchedd Sanctaidd ". Yn 1710 ymddanghosodd ei argraffiad diwygiedig o'r Llyfr Gweddi, ac yn yr argraffiad hwn y ceir ei emyn adnabyddys,

Myfi yw'r adgyfodiad mawr,
Myfi yw gwawr y bywyd.

Yn 1703 cyhoeddodd " Gweledigaethau y Bardd Cwsg ", a dyna ond odid y rheswm paham y'i cofir ddau can mlynedd wedi'i farw. Ni cheisiaf i ddadansoddi y gwaith hwnnw. Fe'i gwnawd gan y Marchog o Fangor. Edrydd Gwilym Marles ym Mugeiliaid Sir Aberteifi stori am hen fugail na fedrai gyfrif rhagor

na phump, ac eto oedd yn adnabod pob un o'r defaid. " Yr oedd ganddo farc o'i eiddo ei hun ar bob llwdn yn y ddiadell ".

Ni cheisiaf innau draethu ar arddull nac idiom meistr y Gymraeg, ond adroddaf stori seml am fod gennyf fy marc fy hun ar Ellis Wynne. Ychydig yw nifer y meistriaid pros yn Gymraeg, ond sicr y mae Ellis Wynne yn un ohonynt.

Tair gweledigaeth yw y Bardd Cwsg—Cwrs y Byd, Angeu ac Uffern. Er mwyn y gŵr na ŵyr, teg yw dweyd fod gan Ellis Wynne gynllun o'i flaen. Yr oedd Ysbaenwr o'r enw Cwevedo wedi ysgrifennu saith gweledigaeth. Cyhoeddwyd cyfieithad o'r rhai hyn i'r Saesneg gan Syr Roger L'Estrange, ac ymddanghosodd y pedwaredd argraffiad ohono yn 1671, a diau mai hwn a ddefnyddiodd Ellis Wynne. Ni phetrusodd Ellis Wynne fenthyca o waith Cwevedo, ond ysgaffaldiau a fenthyciodd er ei gynorthwyo i dynnu darlun o Gymru ei oes a'i ddydd. Rhoes gweledigaethau Cwevedo gyfeiriad a help iddo, ond meddwl a dychymyg Ellis Wynne y sydd tu ôl i'r Bardd Cwsg.

Dywed Syr John Morris-Jones,—" Y mae rhyw ddegwm go helaeth o'r Bardd Cwsg yn efelychiad neu arall eiriad o ddarnau o lyfr Syr Roger, a llawer peth heblaw hynny wedi ei awgrymu ganddo . . . Benthyciodd Ellis Wynne lawer o gymeriadau gan yr Ysbaenwr ond efe biau gorff y mater . . . Prif hawl y Bardd Cwsg i'w ystyried yn waith gwreiddiol yw mai Elis Wyn ei hun, ac nid neb arall sy'n llefaru wrthym ynddo. Am Gymry y sonir, Cymry o'i oes ac o'i gydnabod ef. Eu cymeriadau hwy a ddisgrifir, a'u ffaeleddau hwy a ddynoethir . . . "

Hawdd adnabod Ellis Wynne yma. Yr oedd yn eglwyswr selog, ac o opiniynnau cryf, yn cashau " ffug a rhagrith, twyll a chelwydd, trais a gormes ".

I'r neb a'i darlleno, ceir yma ddarlun teg gan law gyfarwydd o Gymru ar drothwy y ddeunawfed ganrif. Digon gwir ei fod fel ambell gartŵn, ond gellir dweyd fod hiwmor iach yn y galon a rhyw wên chwareus ar ei wyneb. Fe geir ganddo ddisgrifiadau byw diwenwyn. Beth am ddarlun y coegfalch ffôl " Ysgogyn rhygyngog a allai ridyllio ffa wrth wynt ei gynffon ", neu " baladr o ŵr a fuasai'n Alderman ". Hawdd adnabod yr offeiriad yn ceryddu maswedd ei oes wrth fynd trwy Stryd Pleser " Chwaraeon Interliwd, siwglaeth a phob castiau hud " . . . " pob rhyw gerdd faswedd dafod a thant, canu baledau a phob digrifwch ".

Dyna a allasem ddisgwyl oddiwrth Gymry anllythrennog ac ofergoelus heb gael eu hysgwyd eto gan y Diwygiad Methodistaidd. Awgrymir yn aml mai y Diwygiad hwnnw a ddaeth a'r prudd-der i enaid y Cymro. Diddorol a fyddai codi darlun neu ddau o'r Bardd Cwsg.

Y mae yn drwm ar dreiswyr y werin " Yna rhwng y tri eraill yr aeth yn ddadl ; mwy o sidanau oedd gan y Marsiandwyr, mwy o

Weithredoedd ar Diroedd gan y Cyfreithwyr, a mwy o Godeu llownion, a Bilieu a Bandieu gan y Llogwyr . . . cyfoethoccach . . . Belial na'r cwbl, canys ef a'u pieu hwy oll a'u pethau hefyd ".

Gwelir ei gydymdeimlad a'r tlawd. " Beth yw Taeliwr a ddwg ddarn o frethyn, wrth Wr mawr a ddwg allan o'r Mynydd ddarn o Blwy ? "

" Beth yw dwyn dyrneid o flawd yn y Felin, wrth ddwyn cant o hobeidieu i bydru, i gael gwedi werthi un ymhris pedwar ? A pheth yw Pigwr pocced, a ddygo bumpynt, wrth gogiwr dîs, a'th ysbeilia o ganpynt mewn traean nos ? "

Fe welir yma ddarlun o bechod a oedd yn ffynnu yng Nghymru, ac a gondemnir gan Ellis Wynne.

Gwelir yma hefyd rywbeth heblaw offeiriad cul, cryf ar ei biniwn. Y mae naws hyfryd yn ei ddarlun o hawddgarwch y llys.

" Beth a wna hon (y ffynnon) ar lygad y ffordd ? ebr fi.

" Am fod yn rhaid i bawb ymolchi ynddi cyn cael braint yn Llys Immanuel, hi a elwir *Ffynnon Edifeirwch.*"

Y mae wrth ddangos y gwahaniaeth rhwng Llys Immanuel a'r ffordd yno, a'r strydoedd a dramwyodd gynt yn portreadu bywyd y Cymro.

" Yn lle tyngu a'r rhegu, a'r gwawdio a phutteinio a meddwi ; yn lle balchder ac oferedd, y syrthni'n y naill cwrr a thrawsni'n y cwrr arall ; ie, lle'r holl ffrio ffair, a'r ffrest, a'r ffrwst, a'r ffrwgwd . . . "

Sicr fod y pethau hyn yn anurddo bywyd Cymro oes Ellis Wynne. Prydferth yw ei ddarlun o Angeu yn eistedd,—" Ar ei law ddeheu'r oedd *Tynged* yn eiste, ac a golwg ddu ddel yn darllen anferth lyfr oedd a'i flaen : Ac ar y llaw asswy'r oedd henddyn a elwid *Amser*, yn dylifo aneirif o edafedd *aur*, ac edafedd *arian* a *chopr* a *haiarn* lawer iawn, ac ymbell ede'n prifio'n well at ei diwedd a myrddiwn yn prifio'n waeth ; hyd yr edafedd yr oedd *oriau*, *diwrnodiau* a *blynyddoedd* ; a Thynged wrth ei Lyfr yn torri'r edafedd *einioes*, ac yn agor dryseu'r Wal derfyn rhwng y *ddau fyd* ".

Ofnadwy yw ei ddarlun o uffern—uffern o dân a brwmstan,—" Dim *llewygu* na *llesmeirio* nid oes yno . . . ond nerth gwastadol i *ddiodde* ac i *deimlo* . . . a pheth oedd waethaf oll, oedd eu *cydwybod* y rwan wedi cwbl ddeffro, ac yn eu llarpio hwy'n waeth na mil o'r Llewod uffernol ".

Darlunia Hawddfyd fel mamaeth pob pechod, ac am Bechod ei hun dywed, " Pe ceid hon o Uffern f'ai Annwn yn Baradwys : A phe ceid hi o'r Ddaiar, fe ai'r Byd bach yn Nef, a phe cai hithau fynd i'r Nef, hi a droe'r Gwynfyd yn Uffern eitha . . . Hon yw Mamm *Angeu* a hon yw Mam pob drygioni, a thrueni, a chanddi grap ofnadwy ar bob dyn byw ".

Ni chaniata gofod i mi fanylu ar y darluniau. Digon fydd codi awydd yn rhywrai i gerdded y Strydoedd gydag Ellis Wynne ei hun.

Nid yw'r Bardd Cwsg ond beirniadaeth ar fywyd ei oes. Y mae yn llawdrwm ar aml i beth a lygrai foes gwlad a thre. Ceisiai gael ei genedl annwyl yn burach ac yn lanach. Ysgrifennodd y cyfan mewn Cymraeg gwydn, a thra fo'r Gymraeg fe gofir am Ellis Wynne o'r Lasynys ac am y "BARDD CWSG".

X.

Nid yw yr angen am Genhadaeth Eglwys Dduw wedi peidio.

YMDDENGYS y cred rhai fod yr angen am waith Eglwys Dduw wedi peidio. Credant fod y gwaith a gyflawnai yr Eglwys unwaith yn cael ei wneyd yn awr gan gyfryngau eraill.

Mae yna amryw o gymdeithasau dyngarol wedi tyfu, ac y mae llawer o ysbryd crefydd yng ngweithrediadau y rhai hyn. Hefyd y mae llawer o egwyddorion dyngarol yn neddfau a sefydliadau y wladwriaeth, a thybia rhywrai fod y wladwriaeth yn cyflawni gwaith yr Eglwys, ac nad oes angen am yr Eglwys mwyach. Yn ôl tyb y bobl hyn nid yw Eglwys y dyddiau presennol yn ddim ond sefydliad marw a di-wasanaeth.

Achos i lawenhau ydyw fod y wladwriaeth wedi cael ei diwygio, ac fod egwyddorion Cristionogaeth yn cael eu corffori yn neddfau a sefydliadau gwlad. Nid yw yr Eglwys yn eiddigeddu wrth y wladwriaeth oblegid y gwelliant hwn ynddi, eithr ei dymuniad yw ar i ysbryd Cristionogaeth effeithio mwy eto ar ddeddfau a sefydliadau gwledydd y byd, a'u gwneyd yn fwy unol âg addysg Cristionogaeth. Ond er pob gwelliant sydd wedi cymeryd lle yn y gorffennol yn y wladwriaeth, ac a gymer le ynddi eto yn y dyfodol, nid yw hyn yn gwneyd yr angen am genhadaeth arbennig yr Eglwys yn llai.

Y mae swyddogaeth y wladwriaeth a swyddogaeth Eglwys yn wahanol i'w gilydd. Gweinyddu deddfau mae y wladwriaeth, heb geisio goleuo meddwl na diwygio cymeriad ei deiliaid. Nid yw enaid dyn yn cael ystyriaeth y wladwriaeth o gwbl, a bychan y gall effaith unrhyw sefydliad fod ar ddyn os nad effeithia yn gyntaf ar ei enaid. Dywed Paul mai â'r galon y credir i gyfiawnder. Rhaid effeithio ar galon dyn cyn y gellir creu un diwygiad ynddo. Nid yw'r wladwriaeth yn ceisio myned at ei galon ; ac am hynny nid yw yn lleshau nemawr arno drwy weinyddu deddfau.

Mae safle yr Eglwys yn wahanol i eiddo y wladwriaeth. Deil yr Eglwys ei hun mewn perthynas a'r Hwn sydd yn ffynhonnell goleuni a bywyd. Mae ei goleuni hi oddiwrth Dduw, a'i deddfau

yn unol a chyfraith Duw. Ni ellir dweyd fod y wladwriaeth yn cyfrannu goleuni, ond hynny yw un o brif ddibenion yr Eglwys. Ac oni oleuir meddwl dyn nid oes gobaith am iddo ddiwygio a chynyddu. Beth yw'r goleuni gyfranna'r Eglwys i ddyn? Yn gyntaf, goleuni ar fodolaeth Duw ydyw. Dengys Dduw fel un a ddygodd y byd yma i fodolaeth, ac fel un ag y mae ei lywodraeth dros y byd. Mae hefyd yn oleuni ar ddyn, ac ar berthynas dyn â Duw. Dengys ef fel plentyn i Dduw; fel un sydd yn fwy nag anifail; fel bod sydd ag enaid yn perthyn iddo, ac a phosibilrwydd iddo gynyddu ar lun a delw Duw. Dysga'r Eglwys mai nid deiliad y byd gweledig yn unig yw dyn ond ei fod hefyd yn ddeiliad byd ysbrydol a thragwyddol, a bod dyledswydd arno oblegid hynny i gydymffurfio â deddfau y byd hwnnw. Try ei sylw at yr ysbryd sydd ynddo, a dengys iddo nad yn myd yr anifail y mae i fyw; nad yw i adael i chwantau a blysiau anifeilaidd i lywodraethu arno; mae i ddarostwng rheiny fel y byddo i'r dwyfol sydd ynddo gael cyfle i dyfu, ac iddo yntau ddod yn ŵr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist. Ni all y wladwriaeth wneyd hyn. Ni pherthyn iddi y gwaith hwn o gwbl. Gwaith y wladwriaeth yw sicrhau trefn a rheolaeth. Mae y gwahanol ffurfiau sydd ar ddrygioni yn y byd yn cyfodi oddiar gyflyrau mewnol afiach dynion. Nid yw y wladwriaeth wrth gosbi dynion am eu troseddau yn cyfnewid dim ar gyflyrau mewnol dynion, eithr yn unig yn ceisio cadw y byd rhag myned i anhrefn hollol. Â bywyd allanol dynion y mae a fynno'r wladwriaeth. Ond tra y byddo bywyd mewnol dynion heb ei diwygio nid all eu bywyd allanol fod yn dda. Ychydig iawn o welliant gymer le mewn dynion drwy eu cosbu pan y mae eu bywyd allanol, sef eu gweithredoedd, yn ddrwg. Rhaid gwella y bywyd mewnol, sef meddyliau a theimladau a serchiadau ac egwyddorion dynion, cyn y bydd gwelliant yn eu bywyd allanol. Nid yw ynghyrraedd y wladwriaeth i wneyd hynny. Ni cheisia y wladwriaeth ond sicrhau trefnusrwydd allanol, ac ni rydd ystyriaeth, ac ni wna ddim tuag at sicrhau trefnusrwydd mewnol. Gwaith yr Eglwys yw hynny, a hi yn unig all wneyd hynny.

Beth sydd yn creu annhrefn allanol, ac yn achosi trafferth a chost i'r wladwriaeth? Anwiredd, trachwant, gelyniaeth, anonestrwydd a drygioni o wahanol fathau sydd yn cyfrif am yr helbul a'r gost a achosir i'r wladwriaeth. O gyflwr mewnol pechadurus dyn y mae y pethau hyn yn cyfodi. Felly mae yn rhai cyfnewid cyflwr mewnol calon dyn cyn y diflana y troseddau allanol ag sydd yn peri cymaint o helbul a chost i'r wladwriaeth. Mae hynny y tuallan i faes y wladwriaeth. Yr Eglwys yn unig a all effeithio ar galon dyn, gan ei chyfnewid o fod yn galon aflan i fod yn galon lân fel na thardd o honi yr un o'r drygau allanol ag sydd yn peri trafferth a thraul i'r wladwriaeth. Pwy bynnag feddylia nad oes angen mwyach am waith yr eglwys, ac a gred fod y wladwriaeth

yn gallu gwneyd yr oll sydd yn eisiau ar y byd, dengys nad yw wedi deall fod tarddle drygau'r byd y tuallan i faes gweithgarwch y wladwriaeth.

Dywedodd yr Iesu, " Nid oes neb da, ond un, sef Duw ". Golyga hynny nad oes un dyn a'i galon yn hollol lân, ac fod yn mhob calon bethau o ba rai y tardd y drygau ag sydd yn y byd. Gesyd hyn ddyledswydd arbennig ar yr eglwys i rybuddio dynion rhag gadael i feddyliau gwael, amcanion drwg, teimladau maleisus, ac egwyddorion anunion gael llywodraeth arnynt, a'u harwain i ymddygiadau gwaradwyddus. Yn y cyfeiriad hwn mae gan yr Eglwys genhadaeth bwysig mewn perthynas a'r plant. Drwy athrawon yn yr Ysgol Sabothol, drwy rieni duwiol sydd yn aelodau o'r Eglwys, ceisia hyfforddi y plant yn mhen y ffordd drwy ddysgu geirwiredd, brawdgarwch, uniondeb a sancteiddrwydd iddynt. Yn y modd hyn arweinia'r plant i dyfu i fyny i fod yn ddynion o gymeriadau glân ac ymarweddiad sanctaidd.

Gan fod geiriau'r Iesu yn wirionedd am ddyn, ac nad yw dyn, ac na fydd dyn tra ar y ddaear hon yn hollol dda, gwelir nad yw yr angen am genhadaeth yr eglwys wedi darfod, ond yn hollol i'r gwrthwyneb, y parha yr angen am dani o hyd. Hi yn unig a all ddwyn trefn fewnol i'r galon ddynol. O ganlyniad dylai pawb ymdrechu hyrwyddo ei gwaith. Achos llawenydd mawr fyddai gweled adfywiad ar fywyd yr Eglwys yn y dyddiau hyn, a gweled dynion yn sylweddoli mor hanfodol i'r byd yw ei chenhadaeth. Gan mai yr Eglwys sydd yn corffori y goleuni a'r ysbryd a'r egwyddorion a all ddwyn trefn ar y byd, ac arwain dynion i rodio yn union, gorffwys ar bob dyn y ddyledswydd o'i chynorthwyo yn ei gwaith.

L.W.

Y Gymanfa Ganu.

AMHEUWN yn aml nad oes fawr o lewych ar lawer sefydliad, ond fe wnawn eithriad bob tro yn ffafr y GYMANFA GANU. Y mae rhyw swing a bywyd ynddi na cheir yn unlle arall. Wrth wylio y tyrfaoedd yn dod ar ddydd y Gymanfa—Mehefin 18—credwn y gwelwn gysgod Pantywilco, Aeron Davies, Hughes Rhydyfydyr, Thomas Davies y Felin, Hefin Williams, J. R. Thomas ac eraill y sy'n iau ar y Gymanfa, a doi hen adnod i gof—" Eraill a lafuriasant a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwy ".

Rhaid cydnabod fod llwyddiant y Gymanfa yn gorwedd ar ymdrech yr hen gewri yn y blynyddoedd a aeth heibio. Cwestiwn arall ydyw a ydym ni yn gosod sylfaen llwyddiant mwy yn y dyfodol. Amser a ddengys, ond fe ofyn ffyddlondeb gyda'r gwaith.

Pe bai nifer o'r ffyddloniaid yn cwympo, fe welid bwlch ar eu hôl na fedrid ei lanw ar fyr. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Eleni yr oedd yn ddiwrnod braf, ac am dro yr own yn falch ohonom. Ni ddoem rywbryd a rywsut. Yr oem yno yn brydlon a phawb yn edmygu ein trefn. Ni am y tro oedd y Methodistiaid, ta waeth. Nid oedd sedd wâg erbyn amser dechreu yng nghwrdd y bore, a chawsom gyfarfod hwylus a'r arweinydd fel arfer ar ei uchelfannau. Nid wyf yn sicr, serch hynny, bod cystal detholiad o donau gennym a llynedd. Nid yw hynyna ond barn gŵr na ddylasai basio barn. Llywyddodd Mrs. Jones gynt o Landysul fel hi ei hunan ac amheuthun ei chlywed yn siarad a'r plant heb amcanu bod ond yn naturiol. Yn y prynhawn yr oedd y lle yn orlawn ymhell cyn yr amser a phawb yn fodlon dal y gwres er cael dod i mewn. Llywyddwyd gan Mr. Tom Thomas, Llandysul, a chawsom ganddo araith ddestlus. Yn yr hwyr llywyddwyd yn absenoldeb gweinidog Soar gan Mr. Josiah Jones, Y.H., Garthowen. Nid oes angen dweyd inni gael canu da. Canwyd yr anthemau "His Name Proclaim" (Ashford), "Let their Celestial Concerts all unite" allan o Handel's Oratorio "Samson" a "Gwywa y Gwelltyn" o waith Dr. Hopcyn Evans.

Canmolai Dr. Evans y gwaith a chredaf fod pawb yn unfryd unfarn ag ef. Yng nghwrdd y bore a'r hwyr canodd Marian Davies, wyres David Jones, Troedrhiw, a nith i Ceredig Jones o Lundain, yn swynol dros ben, a hithau yn gwneud enw iddi ei hun ym myd yr eisteddfodau.

Cystadleuaeth ddiddorol oedd cyfansoddi tôn ar Emyn Olaf Gwilym Marles a chael canmoliaeth Dr. Evans arnynt, a'r wobr yn cael ei chipio gan Miss Lloyd, Quarry Villa, Cwmsychbant.

Gwnawd y trefniadau gan eglwys Brondeifi, ac y mae i'w chanmol am y gwaith. Diolchwyd i eglwys Soar gan gadeirydd yr hwyr. Dechreuwyd y gwahanol oedfaon gan y Parchn. Dewi Jones, J. D. Jones, B.A., B.D., a Lewis Williams.

Dylasem ddiolch i ysgrifennydd y Gymanfa, Mr. Dan Davies, Belan House, am waith distaw, ac iddo ef ac Evan Richards, Llandysul am arwain y reheaxsals. Heb y gwaith distaw o'r golwg ni fyddai y gymanfa yr hyn ydyw. Deallaf bellach fod y gymanfa nesaf i'w chynnal yn Aberystwyth. Y mae gofyn inni felly loywi ein harfau a mynd ati o ddifrif i baratoi ar ei chyfer fel y bo Cymanfa Ganu 1935 yn rhywbeth i siarad amdani gan drigolion Aberystwyth ac yn rhywbeth y medr gweinidog a chynulleidfa fach yr Heol Newydd edrych ymlaen ati, ac wedi iddi basio, ei chofio fel carreg filltir ar eu taith.

Bydded llwyddiant y gorffennol yn ysbrydiaeth gogyfer a'r gymanfa nesaf.

"UN A OEDD YNO."

Coleg Caerfyrddin.

CYNHALIWYD y cyfarfod blynyddol eleni ar y dydd Mercher, Mehefin 27ain. Fel arfer daeth cynhulliad lluosog o gyfeillion a chefnogwyr ynghyd. Yn eu plith gwelwyd Maeres tref Caerfyrddin (Mrs. T. Lloyd), Cadeirydd y Cyngor Sir (Hen. W. D. Davies), a Chofrestrydd Prifysgol Cymru (Mr. Brynmor Anthony). Yr oedd yn bresennol hefyd gynrychiolaeth dda o'r ddwy gymdeithas Undodaidd. Y cadeirydd oedd Mr. Harold Baily, trysorydd y Bwrdd yn Llundain. Ar y llwyfan gwelwyd hefyd ymhlith eraill : Mrs. H. Baily, y Dr. a Mrs. H. Gow, y Parchn. J. A. Pearson a C. Bartlett, y Dr. E. Griffith Jones a Mr. G. H. Clennell, ysgrifennydd y Bwrdd. Canwyd dau emyn Cymraeg adnabyddus a diweddwyd drwy fendith gan y Parch. Gwilym Smith, Ficer eglwys Sant Pedr, Caerfyrddin. Cafwyd hwyl neillduol ar y gweithrediadau i gyd.

Diolchodd y Prifathro J. Park Davies yn gynnes iawn i'r Bwrdd yn Llundain am ei wasanaeth difesur i'r Coleg a thrwyddo ef i ledaeniad egwyddorion crefydd rydd yng Nghymru, ac hefyd i bwyllgorau y gwahanol enwadau ydynt yn gwasanaethu y myfyrwyr ac yn ffurfio cadwynau rhyngddynt a'r Eglwysi y tu allan.

Mewn un ystyr pwysig fe saif y Coleg Presbyteraidd ar ei ben ei hun. Y mae'r athrawon, y myfyrwyr a'r pwyllgorau yn perthyn i dri enwad—yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Undodiaid—ac eto i gyd gweithiant bob amser mewn perffaith gytgord â'i gilydd.

Ar wahoddiad y Cadeirydd cafwyd anerchiad gan Gofrestrydd y Brifysgol ac ymhlith pethau eraill dywedodd ei bod yn bleser ganddo i hysbysu fod y Prifathro J. Park Davies wedi ei ddewis i fod yn Ddeon yr Adran Ddiwinyddol yn y Brifysgol am y tair blynedd nesaf. Hwn yw y tro cyntaf i weinidog Undodaidd i ddal y swydd gyfrifol hon a gellir edrych ar y digwyddiad fel arwydd pwysig o dueddiadau yr amserau.

Y Dr. Gow oedd y siaradwr ddewiswyd eleni i annerch y myfyrwyr oeddynt yn ymadael a'r Coleg. Dywedodd ei fod ef wedi dechreu ei yrfa weinidogaethol hanner can mlynedd yn ôl. Teimlai fod y gwaith oedd ganddynt mewn llaw yn fwy pwysig yn awr nag y bu erioed. Mantais fawr i'r mwyafrif o honynt oedd eu bod wedi cael profiad o waith mewn gwahanol gylchoedd cyn iddynt fyned i'r Coleg. Gwyddent beth olygai llafur ac yr oeddynt yn myned i'r weinidogaeth er mwyn cyflawni mwy o waith. Nid oes gwell gweithiwr i gael na'r gweinidog cydwybodol. Golyga ei ddydd fwy nag wyth awr o lafur caled. Dymunai yn dda iddynt a llwyddiant mawr ar eu hymdrechion.

Nifer y myfyrwyr ar restr y Coleg y tymor diweddaf oedd 54. O'r rhai hyn yr oedd 13 yn astudio am raddau mewn colegau eraill—2 yn Glasgow, 3 yn Aberystwyth, 3 yn Caerdydd a 5 yn Abertawe. Yr oedd y gweddill yng Nghaerfyrddin a 4 o honynt yn parotoi ar gyfer y radd o B.D. Ystyrir hon yn un o'r graddau caletaf mewn bodolaeth. Yr oedd y ddau mwyaf blaenllaw yn cymryd fel eu testun yr ieithoedd dwyreiniol—Hebraeg, Syriaeg ac Aramaeg. Cafwyd cymorth pwysig ynglŷn â'r olaf gan yr ysgolor adnabyddus y Dr. R. Travers Herford.

Yr oedd 10 myfyriwr yn ymadael a'r Coleg ym Mehefin—7 Annibynnwr a 3 Bedyddiwr. Bwriada un o'r graddedigion fyned i Rydychen am gwrs pellach. Ag eithrio un, y mae'r lleill i gyd wedi derbyn galwadau eisoes.

Gellir gweled oddiwrth yr ychydig ffeithiau hyn fod yr hen Goleg yn cadw i fod yn weithgar a llwyddiannus. Nid hawdd fyddai mesur ei wasanaeth i achos crefydd yn ystod cyfnod maith ei fodolaeth. Cynhyddu o hyd, os rhywbeth, y mae mewn poblogrwydd. Bydd yr arholiad nesaf am fynediad yn cymryd lle yr wythnos gyntaf ym mis Medi ac ni fydd llai na 35 o ymgeiswyr yn eistedd.

Yr unig gwmwl ar y Coleg yn bresennol yw afiechyd y Proff. Emrys Jones. Nid yw wedi medru bod wrth ei waith ers yn agos i ddau dymor ac er gofid mawr i bawb sydd yn dal cysylltiad â'r Coleg, nid oes arwyddion da am adferiad buan iddo. Yn ystod ei absenoldeb y mae ei ddyletswyddau yn cael ei cario ymlaen yn effeithiol iawn gan y Parch. D. P. Roberts, M.A., B.D., Burry Port.

I ddiweddu ar nodyn gwell, dylid dweyd fod cyfarfod y prynhawn wedi ei ddilyn gan wledd flasus o dê yn y Lyfrgell—rhoddedig gan y Bwrdd ac o dan arolygiaeth fedrus Mrs. Park Davies. Yn olaf oll cafwyd gwledd arall o adrodd a chanu gan y myfyrwyr yn yr Assembly Hall.

Marwgofion.

MEHEFIN 24, yn ddisymwth, JOHN GWYN, baban Mr. Henry Jones a Mrs. Margaret Jones, Tŷ'r Capel, Rhydygwin. Claddwyd ym mynwent eglwys Rhydygwin, a gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams.

Ar yr 28ain o FEHEFIN, yn 78 oed, Mrs. MARTHA WILLIAMS, Glynhir. Roeddym wedi sylweddoli ers rhagor na blwyddyn fod yr amser i ffarwelio â hi yn gyflym yn agoshau a thrist iawn oedd meddwl am hynny. 'Roedd iddi le mor annwyl yng nghalonnau ei chymdogion ac yr oedd yna groeso mor gynnes i'w lliaws gyfeillion, pell ac agos, i'w chartref, a melys waith oedd ymweled â Glynhir bob tro. Dynes hynod o garedig a thrugarog oedd Mrs. Williams. Anodd fyddai

enwi aelod mwy trwyadl yn ei ffyddlondeb i'w chapel yng Ngalltyblaca. Rhyfeddol oedd ei chariad at y lle a'i ddiddordeb ym mhopeth er lles yr achos. 'Roedd ei bywyd drwyddo yn fynegiad o deimlad y Salmydd pan y llefarodd " Nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd ". Gadawodd yn ei chartref ferch a mab-yng-nghyfraith, ac yn Dolau-gwyrddon fab a merch-yng-nghyfraith ac wyrion, ynghyd â llawer o berthynasau mewn mannau eraill i alaru ar ei hôl. Fe geir ei neges iddynt oll mewn pennill o'r emyn oedd yn hoff o honno :—

" Ni chaeodd dôr y bedd
Erioed ar blant ein Duw ;
Er gwywo o'r corff yn wael ei wedd,
Mae'r enaid eto'n fyw."

Ar ddydd ei hangladd y dydd Llun dilynol gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Lewis Williams a O. Davies, Ficer Tremain, yn y Capel gan ei Gweinidog y Parch. S. E. Bowen, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A.

GORFFENNAF 2, bu farw ELIZABETH EVANS, Pontyfoel, Capel Dewi, yn 56 mlwydd oed. Daeth yr alwad iddi yn ddisyfyd iawn, yn wir tra wrth ei gwaith. Benyw onest, ddiwyd a gwasanaethgar dros ben oedd yr ymadawedig ac mae wedi gadael gwagle mawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn yn llwyr â'i perthynasau. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid, Gorffennaf 5, a'r Gweinidog yn gwasanaethu.

Erys er i'r gweithiwr farw,
Ei lafurwaith ef ;
Sôn am dano mae pob erw
Wrth y nef.

Ar ORFFENNAF 17 bu farw y Parch. D. G. REES yn ei gartref, Dolgranod, Trebanos. Ers blynyddoedd bellach ni fwynhai'r iechyd gorau. Fel Gweinidog ac fel Cenhadwr rhoddodd wasanaeth amhrisiadwy i Undodiaeth Cymreig, ac er iddo ymddiswyddo o'r weinidogaeth bedair blynedd yn ôl, parhai ei ddiddordeb ym materion yr enwad yn fywiog hyd y diwedd. Fe'i ganwyd yn ardal Cwrtnewydd naw a thriugain o flynyddoedd yn ôl. Yn gynnar ufuddhaodd ei ysbryd anturus i " alwad y môr ". Wedi tair blynedd o hwylio o flaen y mast i rai o fannau pellennig y ddaear penderfynodd ddysgu crefft fel dilledydd, fel ei dad, Josiah Rees, Tanrhiw. Aeth i Aberdâr, ac yno taniwyd brwdfrydedd ei ysbryd gan broblemau diwydiannol gwerin ei wlad. Clywyd ei hyawdledd naturiol ar lwyfannau'r Blaid Lafur. Yr oedd ci ddylanwad gymaint fel nad oedd betrusder am ei ddyfodol disglair fel gwladweinydd. Er hynny gweinidogaeth yr Efengyl a enillodd ei serch. Gweinidogaethodd ym Mhentre Rhondda a Chlydach Vale (1898-1903), yn y Wig (1903-1904), ym Mhenybont (1903-1912), yng Ngellionnen a'r Graig, Trebanos (1912-1930). Claddwyd ei weddillion yn mynwent Capel y Bryn, ar Orffennaf 20, wedi gwasanaeth coffa yng Nghapel y Graig, Trebanos, lle y siaradwyd gan amryw o'i gyd-weinidogion yn yr ardal. Yr oedd y gynulleidfa fawr hon yn dyst o'r parch a'r edmygedd a delid i'r ymadawedig yn Nyffryn Tawe. Yng Nghapel y Bryn hefyd cafwyd gwasanaeth cyn daearu ei weddillion ym medd ei briod a'i rhagflaenodd ef flwyddyn yn ôl. Yn galaru y mae merch a lliaws o neiaint a nithod ynghyd a'r cymdogaethau a dyfodd i'w garu fel Gweinidog Crist.

[Ceir ysgrif ar fywyd a gwaith Mr. Rees yn ein rhifyn nesaf].

UWCHBEN Y BEDD.

Gwynog Rees ! Gwae yn y gro—dy orwedd !
Nid erys ond atco
Yma o'th fryd mwy i'th fro ;
Da, gyfaill ! yw dy gofio.

Nos yr angladd [*20-7-'34*]. Cledlyn.

GORFFENNAF 20fed, yn bedair mlwydd oed, REES IEUAN, mab bychan David Lloyd a Mary Ann Lloyd, Ty'ngrug-uchaf, Llanwenog. Ni fu ei gystudd ond wythnos. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent capel Cwmsychbant. Yr oedd yr angladd yn un lluosog iawn, ac yn ddangoseg eglur o barch i'r teulu ac o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth lem. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Ben Davies, Ficer Llanwenog ; Dewi J. Jones, Capelygroes ; T. O. Williams, M.A., Llanbedr, a E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul.

Blodeuyn bach a ddaeth i'r byd,
Fe gawd ei wel'd a dyna'i gyd ;
Yn ôl y galwodd Duw efe
Er cael blodeuo'n Nheyrnas Ne !

Ar ei ôl y mae eto saith o blant ; o'r saith y mae dwy eneth fechan yn efeilliaid, a bedyddiwyd y ddwy ddydd angladd eu brawd bychan, ac o flaen y gwasanaeth angladdol yn y tŷ, gan y Parch. Lewis Williams.

Nodion yr Eglwysi.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—At yr enwau ymddangosodd mewn cysylltiad ag Arholiad yr Ysgol Sul y mis diwethaf ychwanegir a ganlyn : SAFON I.—Evan David Jones, Llwynrhydowen ; Betty Davies, Myra Evans, Griff. Jenkins, Glennis Davies, Gwen Jenkins a Timothy D. Jones, Capel-y-Bryn.

AR YR AWYR.

DARLLEDIR gwasanaeth Cymraeg o Gapel y Graig, Llandysul, ar Fore Sul, Medi 2, am unarddeg o'r gloch. Y Gweinidog, y Parch. E. Gwilym Evans, B.A. fydd yn gwasanaethu.

BUGAIL Y MOR.

Mae'r awel yn curo yn uwch
A galw yn uwch wrth fy nôr :
" Gollyngwyd dy ddefaid yn rhydd
I grwydro ym meysydd y môr ;

" Ar ffriddoedd diderfyn y don
Dy wyn ddiadelloedd a bawr ;
Clyw draw o borfeydd glas y lli
Eu lleisiau aneiri' yn awr."

Af weithian i ganol fy mhraidd
Heb feddwl am gwmwl a'i guwch ;
Fe'm ganwyd yn Fugail y Môr,
Mae galwad yr awel yn uwch.

Daw beunydd i'r asur di-staen
Fy nefaid yn delaid eu dull
Drwy borth gogoneddus y wawr
Yn burlan o gorlan y gwyll.

Mae'r awel yn galw yn uwch,
A minnau yn gadael fy nôr
I fynd gyda'm defaid yn rhydd
I grwydro ym meysydd y môr.

Bugeiliaid y wlad sy'n porfâu
Eu preiddiau ar fryniau o fri,
Ond gwyn ddiadelloedd y don
A ffriddoedd y moroedd i mi.

Os bleiddiaid y ddrycin a ddaw,
Wynebaf hwy'n gadarn fy mron ;
Wynebais hwy ganwaith cyn hyn
Ar lwybrau diderfyn y don.

Fe'm ganwyd yn Fugail y Môr,
Llechweddau y môr yw fy myd ;
I'r don gyda'r awel yr âf,
Ei gyrroedd a garaf i gyd.

Daw dydd na bydd ateb pan ddel
Yr awel yn uchel o'r nen,
A minnau ymhell o fy nôr,
A ffriddoedd y môr uwch fy mhen.

SARNICOL.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.